Dyma'r canllawiau ar gyfer:

# Cronfa Gynhyrchu Ffilm Cymru
# Ffilmiau naratif gweithredu byw neu animeiddiedig

**Cynnwys**


Cyflwyniad .......... 3

O ble y daw cyllid cynhyrchu Ffilm Cymru? .......... 4

Beth yw'r meini prawf ar gyfer y gronfa hon? .......... 5

Meini Prawf Cymhwysedd .......... 5

Blaenoriaethau Cyllido Ffilmiau .......... 6

Yr hyn na allwn ei ariannu .......... 7

Sut ydw i'n ymgeisio? .......... 7

A allaf i gael cymorth gyda fy nghais? .......... 7

Manylion Cyswllt .......... 8

Dyddiadau Cau .......... 8

Y Broses Ymgeisio .......... 9

Sut mae penderfyniadau cyllido yn cael eu gwneud? .......... 12

Meini Prawf Asesu .......... 12

Y Broses Asesu .......... 13

Syniad o Linell Amser Gwneud Penderfyniadau .......... 14

Adborth .......... 14

Ailgyflwyno .......... 15

Manylion y cais .......... 16

Am faint o gyllid ddylwn i ofyn? .......... 16

Gofynion y Gyllideb .......... 17

Costau Mynediad .......... 19

Ffioedd Cynhyrchydd/Cynhyrchu .......... 19

Canllawiau ar y Cynllun Ariannu .................................................. 19
Sut ydw i'n gweithio gyda Ffilm Cymru os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i mi? .................................................. 21
Y broses o ddyfarnu arian .................................................. 22
Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid? .................................................. 22
Nodau strategol Ffilm Cymru .................................................. 28
Ffilm Cymru a Chynaliadwyedd .................................................. 28
Meini Prawf y Cynllun Cynaliadwyedd .................................................. 29
Cynaliadwyedd Amgylcheddol .................................................. 30
Amrywiaeth a Chynhwysiant .................................................. 31
Sgiliau a Hyfforddiant .................................................. 32
Entrepreneuriaeth .................................................. 33
Ffilm Cymru Wales Telerau Busnes Safonol .................................................. 35

# Cyflwyniad

Dyma’r canllawiau ar gyfer cyllid cynhyrchu Ffilm Cymru ar gyfer ffilmiau nodwedd naratif gweithredu byw neu animeiddiedig. Os ydych chi'n edrych am gyllid cynhyrchu ar gyfer prosiect dogfen nodwedd, trowch at y canllawiau hynny yn lle.

Mae Ffilm Cymru yn gwmni buddiannau cymunedol sydd â chylch gwaith i ddatblygu sector ffilmiau cynaliadwy yng Nghymru. Un o'r ffyrdd allweddol rydyn ni'n gwneud hyn yw trwy fuddsoddi mewn gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru a'u syniadau. Rydyn ni am roi byd ffilmiau Cymru ar y map drwy hybu, o gyfnod cynnar, ffilmiau annibynnol, sy'n anghonfensiynol, uchelgeisiol, a chrefftus. Rydym yn benodol eisiau hyrwyddo lleisiau sydd wedi'u tangynrychioli a gwthio ffiniau'r hyn yr ystyriwn yn ffilmiau o Gymru, gan groesawu cyd-gynyrchiadau, gwaith yn iaith arwyddion Prydain a Chymraeg yn ogystal â phrosiectau Cymraeg, a phrosiectau sy'n arbrofi â ffurf ac arddull.

Drwy'r gronfa hon, rydyn ni'n cefnogi ffilmiau naratif gweithredu byw neu animeiddiedig gwreiddiol, sydd wedi'u hanelu i’w rhyddhau yn y sinema ac sy'n cael eu harwain gan awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr sy'n enedigol o Gymru neu’n seiliedig yng Nghymru (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel gwneuthurwyr ffilmiau neu dalent o Gymru). Os nad yw eich prosiect yn hollol barod eto ar gyfer buddsoddiad cynhyrchu a bod angen mwy o ddatblygu arno, edrychwch ar ein cyllid datblygu yn lle: naill ai ein cronfa Gorwelion ar gyfer gwneuthurwyr ffilmiau[1], neu ein Cronfa Ddatblygu, i wneuthurwyr ffilmiau mwy profiadol[2].

Os oes unrhyw beth yn y canllawiau hyn sydd ddim yn glir, neu os hoffech chi gymorth i wneud cais, cysylltwch â ni, (gweler y Manylion Cyswllt isod).

[1] https://ffilmcymruwales.com/funding-and-training/horizons-emerging-filmmaker-development
[2] https://ffilmcymruwales.com/funding-and-training/established-filmmaker-feature-film-development

## O ble y daw cyllid cynhyrchu Ffilm Cymru?

Mae cyllid cynhyrchu Ffilm Cymru'n cynnwys arian o Gronfeydd y Loteri Genedlaethol a ddirprwywyd drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, a Chronfeydd Cyfalaf Llywodraeth Cymru a ddirprwywyd drwy Gymru Greadigol. Mae ein cyllid yn ddethol, yn hytrach nag yn awtomatig, ac yn canolbwyntio ar ffilmiau annibynnol sy'n cael eu gwneud i'r sinema o dan arweiniad gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru.

Os ydych yn edrych am fwy na £600,000 o gyllid cynhyrchu ar gyfer ffilm nodwedd, neu'n gweithio ar ffilm sy'n cael ei gyrru gan stiwdio, yna dylech gysylltu â Chymru Greadigol yn uniongyrchol ar creativewales@gov.cymru.

Mae gan Ffilm Cymru ryw £1.6 miliwn i'w fuddsoddi'n flynyddol mewn cynhyrchu ffilmiau nodwedd o'r flwyddyn 2022 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys incwm sy'n cael ei dderbyn oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru a Chymru Greadigol yn ogystal ag unrhyw arian sy'n cael ei gario drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol ac unrhyw incwm a gynhyrchir gan ein buddsoddiad mewn ffilmiau. Gallwch weld dadansoddiad manwl o'r buddsoddiadau a wnawn bob blwyddyn yn ein Hadroddiadau Blynyddol[3].

[3] https://ffilmcymruwales.com/index.php/about-us/our-reports

## Beth yw'r meini prawf ar gyfer y gronfa hon?

Mae gan y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru ill dwy baramedrau cyllido, ac mae ein cronfeydd ni'n adlewyrchu hynny. Yn ogystal â hyn, rydym wedi llunio ein cronfa gynhyrchu mewn ymateb i'r anghenion rydym wedi'u harsylwi dros yr un mlynedd ar bymtheg diwethaf ers ein sefydlu ac esblygiadau'r sector ffilm yn ehangach, gan gael ein harwain gan y gwneuthurwyr ffilmiau a ariannwn a'n Bwrdd[4].

## Meini Prawf Cymhwysedd

Er mwyn gwneud cais i'r gronfa hon mae'n i chi fodloni'r canlynol:

- Prosiect ffilm nodwedd wreiddiol gyda'r bwriad i'w rhyddhau yn y sinema
- Prosiect a fyddai'n gallu cymhwyso fel un Brydeinig drwy'r Prawf Diwylliannol, un o gytundebau cyd-gynhyrchu swyddogol y DU NEU'R Confensiwn Ewropeaidd ar Gyd-gynhyrchu[5]
- Awdur, cyfarwyddwr a chynhyrchydd yn gysylltiedig â'r prosiect, a'r prif gynhyrchydd yn berson gwahanol i'r awdur a'r cyfarwyddwr
- Talent a anwyd neu sy'n seiliedig yng Nghymru yn rôl y prif awdur, cynhyrchydd a/neu gyfarwyddwr. Bydd prosiectau sydd â thalent o Gymru mewn rôl cyd-gynhyrchydd yn cael eu hystyried os yw'r prosiect yn adlewyrchu dilyniant clir i'r talent o Gymru, naill ai o ran cyllideb, genre, a/neu bartneriaethau
- Awduron, cyfarwyddwyr, a chynhyrchwyr ar eich prosiect sydd dros 18 oed ac nid mewn addysg amser llawn
- Yn berchen ar yr hawliau yn y prosiect neu fod yn y broses o gael yr hawliau (gan gynnwys unrhyw hawliau sylfaenol).[6]

[4] https://ffilmcymruwales.com/index.php/about-us/our-board
[5] See bfi.org.uk/film-industry/british-certification-tax-relief
[6] For advice on setting up a company, please visit companies house

- Yn gallu gwneud cais drwy gwmni sydd wedi ei gofrestru ac yn cael ei reoli'n ganolog yn y DU.  Y cynhyrchydd ddylai arwain y cwmni hwn. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyd-gynyrchiadau rhyngwladol cymwys Prydeinig, sy'n cael eu croesawu
- Profiad perthnasol o ffilm neu deledu yn eich tîm.
- Cynllun dichonadwy i'r ffilm gael ei hariannu'n llawn o fewn chwe mis
- Fel arfer bydd gennych o leiaf ddeuddeg wythnos cyn i chi ddechrau ar y prif waith ffotograffiaeth

Yn ogystal â hyn, mae Ffilm Cymru yn canolbwyntio ei fuddsoddiad ar brosiectau sy'n cyd-fynd ag un neu fwy o'r canlynol:

## Blaenoriaethau Cyllido Ffilmiau

- Gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru mewn cyfnod cynnar yn eu gyrfaoedd
- Ffilmiau, sy'n cael eu harwain gan wneuthurwyr ffilmiau sydd wedi'u tangynrychioli a/neu yr uniaethir â nhw gan gynulleidfaoedd sydd yn draddodiadol wedi tan-wasanaethu gan ffilmiau nodwedd[7] gan gynnwys ffilmiau Cymraeg
- Ffilmiau sydd â gwerth artistig cryf, sy'n mentro o ran talent, cynnwys neu ffurf y byddai'r sector masnachol yn ei chael yn anoddach i'w cefnogi[8]
- Ffilmiau sy'n darlunio Cymru a diwylliant Cymru mewn ffyrdd newydd ac anghonfensiynol.

---

[7] I gael mwy o wybodaeth am ein dull gweithredu mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, darllenwch ein Cynllun Gweithredu, Mae Ffilm i Bawb fan yma

[8] Mae hyn yn egwyddor allweddol o gyllid y Loteri i ffilmiau

## Yr hyn na allwn ei ariannu

Ni allwn ariannu'r canlynol drwy'r gronfa hon:

- Gwaith a fwriedir yn bennaf i ddal ffurf arall ar gelfyddyd, fel darn theatr, digwyddiadau chwaraeon neu gerddoriaeth wedi'u ffilmio
- Ffilmiau byrion (neu ffilmiau sy'n fyrrach na 70 munud o hyd)
- Gosodiadau gan artistiaid
- Gwaith nad yw'n bennaf yn ddarn clyweledol
- Gwaith a fwriedir yn bennaf i'w ddarlledu ar y teledu

Mae hyn oherwydd bod cronfeydd eraill ar gael gan ddarlledwyr, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymru Greadigol ac eraill i gefnogi'r uchod. Gallwch hefyd gael cyllid ar gyfer ffilmiau byrion drwy ddarpariaeth Rhwydwaith BFI Cymru[9].

## Sut ydw i'n ymgeisio?

Oherwydd ein bod yn rheoli arian cyhoeddus, mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn rhoi mantais annheg i unrhyw ymgeiswyr a bod gennym brosesau clir a thryloyw ar waith. Mae hynny'n golygu na allwn asesu prosiectau yn anffurfiol a bod yn rhaid i chi gyflwyno drwy'r broses ffurfiol, gan fynegi diddordeb yn gyntaf.

## A allaf i gael cymorth gyda fy nghais?

I ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n bobl F/byddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu'n niwroamrywiol, a phobl sydd â cholled golwg, mae cymorth pellach hefyd ar gael i gyflwyno cais. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn gwneud cais, neu gymorth ysgrifennu i

[9] https://ffilmcymruwales.com/funding-and-training/beacons-short-film-funding

ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau eraill ar gyfer gwneud cais fel fideo byr neu ddec sleidiau. Cysylltwch â ni i drafod sut y gallwn helpu o flaen llaw cyn i chi gyflwyno cais (gweler y Manylion Cyswllt isod).

## Manylion Cyswllt

Rhaid i'r ceisiadau wedi'u cwblhau gael eu hanfon mewn e-bost i applications@ffilmcymruwales.com, oni bai ein bod wedi cytuno ar ffurf arall i'w gyflwyno.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu geisiadau ynghylch mynediad, cysylltwch â'r ddau berson yma:

Kiah Simpson, Swyddog Gweithredol Cynhyrchu
kiah@ffilmcymruwales.com a
Ihsana Feldwick, Cydlynydd Talent ihsana@ffilmcymruwales.com

## Dyddiadau Cau

Gallwch fynegi eich diddordeb ar gyfer ein cyllid cynhyrchu ar unrhyw adeg.

Rydym hefyd yn derbyn ceisiadau llawn am arian cynhyrchu ar unrhyw adeg ond bydd yn rhaid adolygu ceisiadau am £50,000 neu fwy yng nghyfarfod chwarterol nesaf y Bwrdd. Bydd angen i dîm cynhyrchu Ffilm Cymru ysgrifennu adroddiad llawn am eich cais yn y cyfnod cyn y cyfarfod hwn o'r Bwrdd, a gaiff ei gyflwyno iddynt ymlaen llaw. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi gyflwyno eich ffurflen gais gymaint â phosibl cyn dyddiad cyfarfod y Bwrdd ac yn y cyfnod cyn y cyfarfod, bydd gofyn i chi fod ar gael i drafod eich prosiect gyda'r swyddog gweithredol sy'n rheoli eich cais. Dyma ddyddiadau cyfarfodydd nesaf y Bwrdd:

- 28ain Medi 2022
- 14eg Rhagfyr 2022

Cofiwch bob amser gadarnhau’r dyddiad y bydd eich prosiect yn cael ei ystyried gyda'r swyddog gweithredol sy'n rheoli eich cais.

Dan amgylchiadau eithriadol ac os gall ymgeisydd ddangos tystiolaeth bod eu prosiect yn sensitif o ran amser, efallai y gallwn asesu cais y tu allan i'r dyddiadau hyn, gyda chymeradwyaeth y Swyddog Gweithredol Cynhyrchu ymlaen llaw, ond nid oes modd gwarantu hyn.

## Y Broses Ymgeisio

Dylai ceisiadau gael eu gwneud gan brif gynhyrchydd y prosiect a ddylai hefyd fod yn ddeiliad hawliau'r prosiect. Fodd bynnag, os yw'r prosiect yn gyd-gynhyrchiad rhyngwladol dylai cyd-gynhyrchydd swyddogol y DU ymgeisio.

### Mynegi Diddordeb

Yn gyntaf, bydd angen i ymgeiswyr lenwi ffurflen mynegi diddordeb, y gellir ei lawrlwytho o'n gwefan neu ei darparu mewn fformatau gwahanol i gynorthwyo mynediad. Dylent anfon eu Ffurflen Mynegi Diddordeb wedi’i lenwi mewn e-bost I applications@ffilmcymruwales.com.

Mae'r Ffurflen Mynegi Diddordeb yn cynnwys cyfres o gwestiynau am eich tîm a'ch prosiect, sy'n rhoi trosolwg i ni o'ch prosiect, ei gymhwysedd, llinell amser, ac addasrwydd i'n cyllid. Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau pob rhan o'r ffurflen ac yn sicrhau bod unrhyw ddolenni ategol yn weithredol. Bydd gofyn i chi ddarparu CVs ar gyfer eich tîm craidd a dolen weithredol i showreel neu waith diweddar mwyaf perthnasol y cyfarwyddwr.

Ar ôl i chi gyflwyno'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb, byddwn yn cadarnhau drwy e-bost ei bod wedi dod i law a bydd rhif adnabod unigryw yn cael ei neilltuo i'r cais. Dylech dderbyn y gydnabyddiaeth hon o fewn wythnos i'w chyflwyno.

Bydd yr e-bost hwn hefyd yn cynnwys dolen i lenwi ein ffurflen monitro amrywiaeth, a ddylai gael ei chwblhau gan bob prif awdur, cyfarwyddwr a chynhyrchydd ar y prosiect. Mae ymateb 'gwell gen i beidio â dweud' ar gael ar gyfer pob cwestiwn ond mae'r atebion a dderbyniwn yn ein helpu i gasglu tystiolaeth am fylchau mewn cynrychiolaeth a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw. I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â pham ein bod yn gofyn am y wybodaeth hon, darllenwch ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb[10].

Os yw eich Ffurflen Mynegi Diddordeb yn cael ei chymeradwyo, byddwn yn eich gwahodd i gyflwyno ffurflen gais. Os nad yw eich Ffurflen Mynegi Diddordeb yn cael ei chymeradwyo, byddwn yn darparu adborth byr ynghylch pam nad yw'n gymwys ar gyfer ein cyllid neu pam nad yw'r amseru'n iawn ar gyfer cais.

Byddwch yn clywed gennym drwy e-bost o fewn pythefnos ynglŷn â chanlyniad eich Ffurflen Mynegi Diddordeb.

**Ffurflen Gais**

Os caiff eich Ffurflen Mynegi Diddordeb ei chymeradwyo, byddwch yn cael eich gwahodd i gyflwyno ffurflen gais lawn, sydd i'w gweld ar y wefan, neu gall gael ei darparu mewn fformatau eraill os oes gennych anghenion mynediad.

Bydd gofyn i chi gyflwyno'r canlynol ynghyd â'ch ffurflen gais:

[10] https://ffilmcymruwales.com/cy/ffilm-i-bawb

- Drafft o'r sgript ar gyfer y prosiect rydych yn gofyn am gyllid ar ei gyfer (mewn fformat safonol y diwydiant, fel Final Draft)
- CVs eich tîm craidd a dolen weithredol i waith blaenorol mwyaf perthnasol y cyfarwyddwr
- Eich cynllun ariannu
- Eich cyllideb (yn fformat safonol y diwydiant, fel Movie Magic)

Ni fydd eich cais wedi'i gwblhau nes bod yr holl eitemau hyn wedi'u hanfon ynghyd â'r ffurflen gais.

Bydd eich cais yn cael ei gryfhau gan unrhyw ddeunyddiau creadigol neu fusnes eraill sydd ar gael, fel lookbook, rîl naws, animateg, amcangyfrifon gwerthiant gan asiant gwerthu dibynadwy neu lythyrau mynegi bwriad oddi wrth asiantau gwerthu, dosbarthwyr, neu arianwyr eraill. Rydym yn deall fodd bynnag y bydd rhai prosiectau'n cael mwy o drafferth nag eraill i gael llythyrau mynegi bwriad fel yma ar gam ymgeisio, ac felly byddwn yn asesu pob prosiect yn ôl ei deilyngdod ei hun (gweler y Meini Prawf Asesu isod).

Y peth gorau yw eich bod yn darparu dogfennau ategol ar ffurf un ddolen i blatfform storio ar-lein, a hynny yng nghorff eich cais, yn hytrach nag fel atodiadau unigol.

Mae'n bwysig eich bod yn ymateb i bob cwestiwn yn y ffurflen gais oni bai ei fod yn cael ei ddisgrifio fel dewisol, gan na fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu hasesu. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gofyn i chi gwblhau ac ail-gyflwyno eich cais.

# Sut mae penderfyniadau cyllido yn cael eu gwneud?

## Meini Prawf Asesu

Rydym yn ystyried y canlynol i gyd wrth asesu a ddylid cynnig cyllid i brosiect:

- Safon a gwreiddioldeb y prosiect a gallu'r tîm i wireddu eu gweledigaeth greadigol
- A yw'r prosiect yn ymateb i un neu fwy o'n Blaenoriaethau Cyllido
- A fydd y prosiect yn cael effaith sylweddol ar yrfaoedd a chwmnïau gwneuthurwyr ffilm o Gymru
- A yw'r prosiect yn ddichonadwy. A yw'r amcangyfrif o lefel y gyllideb a'r cynllun ariannu'n rhesymol a phriodol ar gyfer y prosiect hwn ac ar gyfer profiad y tîm? A llinell amser y prosiect yn ymarferol?
- Dealltwriaeth y tîm o'r gynulleidfa benodol ar gyfer eu prosiect a'r cynllun i gyrraedd y gynulleidfa honno
- Y potensial i gefnogi sector sgrin cynaliadwy yng Nghymru , gan fynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, ac arloesedd busnes ehangach.
- Addasrwydd y prosiect i gael arian cyhoeddus. A ellid ei ariannu'n llawn yn fasnachol? A yw'r prosiect yn gallu talu pawb am eu gwaith ac na fydd gofyn i ni ei ariannu'n ôl-weithredol? Gweler Gofynion y Gyllideb isod.
- Y tebygolrwydd y bydd y prosiect yn cael ei ryddhau mewn ffordd ystyrlon mewn sinema (heb fod wedi'i hunan-gyllido)
- Cydbwysedd cyffredinol ein buddsoddiadau. Byddwn yn ystyried a yw'r prosiect yn ychwanegiad nodedig at lechen gytbwys o brosiectau a sy'n cael eu cefnogi gan Ffilm Cymru.

Bydd y broses asesu hefyd yn ystyried sut rydych wedi rheoli unrhyw gyllid blaenorol rydych wedi'i dderbyn gan Ffilm Cymru.

## Y Broses Asesu

Bydd ceisiadau am hyd at £24,999.99 yn cael eu hasesu gan aelodau o dîm datblygu, cynhyrchu a sgiliau Ffilm Cymru sydd fel arfer yn cynnwys y Swyddog Gweithredol Cynhyrchu, y Swyddog Gweithredol Materion Busnes, a'r Pennaeth Cynhyrchu.

Bydd ceisiadau am rhwng £25,000 a £49,999 yn cael eu hasesu gan yr uchod a chynrychiolydd o fwrdd Ffilm Cymru.

Bydd ceisiadau am £50,000 neu fwy yn cael eu hasesu ar ffurf adroddiad gan aelod neu aelodau o dîm cynhyrchu Ffilm Cymru (sy'n cynnwys y Swyddog Gweithredol Cynhyrchu, y Swyddog Gweithredol Materion Busnes, y Pennaeth Cynhyrchu a’r Prif Swyddog Gweithredol). Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei adolygu a’i gymeradwyo gan Fwrdd Ffilm Cymru (bydd yn rhaid iddo fod â chworwm gydag o leiaf dri aelod yn bresennol) yn ogystal ag un cynrychiolydd o Gymru Greadigol. Byddai'r broses hon fel arfer yn digwydd yng nghyfarfodydd chwarterol y Bwrdd (gweler adran y Dyddiadau Cau uchod).

Efallai y byddwn yn defnyddio ymgynghorwyr allanol yn ogystal â'r personél a nodwyd uchod er mwyn ehangu'r arbenigedd a'r profiad byw sy'n bwydo i mewn i asesiadau.

Yn y broses o ysgrifennu ein hadroddiad efallai y byddwn yn gofyn am fwy o wybodaeth neu ddeunyddiau gennych. I gael gwybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud gyda data ymgeiswyr, gweler ein Polisi Preifatrwydd.[11]

Bydd Ffilm Cymru yn rhoi gwybod i chi o fewn tri diwrnod gwaith i unrhyw ddyddiad asesu a oedd eich cais yn llwyddiannus, yn aflwyddiannus neu a yw wedi’i ohirio (gyda'r olaf fel arfer yn golygu bod angen eglurhad ar elfen o'r cynhyrchiad). Efallai y byddwn yn

[11] https://ffilmcymruwales.com/sites/default/files/2020-10/Privacy%20Policy%202018.pdf

cynnig dim, y cyfan, neu rywfaint o'r cyllid y gofynnoch amdano, yn ôl ein disgresiwn.

## Syniad o Linell Amser Gwneud Penderfyniadau

| | |
|---|---|
| Ymateb i'r ffurflen mynegi diddordeb | O fewn pythefnos |
| Ymateb i'r ffurflen gais (os yn gofyn am hyd at £50,000) | O fewn chwe wythnos |
| Ymateb i'r ffurflen gais (os yn gofyn am £50,000 neu fwy) | I'w benderfynu yng nghyfarfod y Bwrdd. Cewch wybod o fewn 3 diwrnod gwaith o'r dyddiad asesu a gaiff ei roi i chi ymlaen llaw. |

## Adborth

Os nad ydych yn llwyddiannus yn eich cais am gyllid, byddwch yn derbyn adborth byr drwy e-bost. Rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau ac nid oes gennym yr adnoddau i roi adborth manwl i bob prosiect sy'n cyflwyno cais.

Mae Ffilm Cymru yn gronfa ddethol yn hytrach nag un awtomatig a dim ond 4-8 cynhyrchiad y flwyddyn a gaiff eu hariannu ar gyfartaledd. Caiff ceisiadau eu gwrthod am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Pa mor barod yw'r tîm i greu ffilm nodwedd ar y lefel hon
- Gwreiddioldeb y deunydd
- Pa mor briodol yw lefel y gyllideb ar gyfer y deunydd
- A yw'r prosiect yn ddigon parod i symud at gynhyrchu
- A allai'r prosiect gael ei ariannu trwy ddulliau eraill

- Sut mae’r prosiect yn cyd-fynd â’n Blaenoriaethau Cyllido
- Unrhyw elfen arall sy'n ymwneud â'n Meini Prawf Asesu.

Nid oes rheidrwydd i'r tîm weithredu ar unrhyw adborth sy’n cael ei ddarparu gan Ffilm Cymru ac nid yw gweithredu’r adborth hwnnw ychwaith yn gwarantu y bydd cyllid yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

## Ailgyflwyno

Ni ellir gwneud ailgyflwyno ceisiadau a wrthodwyd yn flaenorol heb fod Ffilm Cymru’n cymeradwyo hynny ymlaen llaw. Dylai ceisiadau a gaiff eu hailgyflwyno ddangos newidiadau sylweddol sy'n mynd i'r afael ag unrhyw adborth blaenorol gan Ffilm Cymru: er enghraifft, ailysgrifennu’n sylweddol neu newid cynhyrchydd.

Os ydych yn bodloni'r meini prawf hyn ac yn cyflwyno cais newydd ar gyfer yr un prosiect, mae'n rhaid i chi nodi elfennau diwygiedig y prosiect yn glir yn y cais.

Rhaid trafod gydag aelod o’r tîm hefyd ynghylch ceisiadau sy’n cael eu hailgyflwyno, pan fo cyllid wedi’i gynnig a bod y cynnig wedi dod i ben.

# Manylion y Cais

## Am faint o gyllid ddylwn i ofyn?

Gall Ffilm Cymru ddyfarnu hyd at uchafswm o £600,000 ond rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r dyfarniadau fod rhwng £150,000 a £400,000.

Mae hefyd yn bwysig nodi na all Ffilm Cymru ariannu prosiectau yn llawn ac fel arfer ni fyddai'n disgwyl i'n buddsoddiad fod yn fwy na 50% o'ch cyllideb. Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y byddem yn ystyried mynd y tu hwnt i'r ganran hon o'r gyllideb gyda'n cyllid, os yw'r prosiect yn annhebygol iawn o ddenu digon o gyllid partneriaeth ond bod ganddo deilyngdod artistig neu ddiwylliannol cryf a'i fod yn cyd-fynd yn benodol â'n Blaenoriaethau Cyllido.

Wrth benderfynu am faint o gyllid i ofyn chi dylech ystyried:

- Eich cynllun ariannu a'r symiau y gallwch eu denu yn realistig oddi wrth arianwyr eraill, sydd efallai'n rhai mwy o faint
- Eich cyllideb, gan sicrhau bod y rhoddir cyfri am y costau gofynnol y manylir arnynt yn yr adran Canllawiau'r Gyllideb isod
- Y gwariant yng Nghymru y gallwch chi ei ddisgwyl yn rhesymol yn eich cynhyrchiad gan gynnwys costau awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr ar y prosiect a anwyd neu sy'n seiliedig yng Nghymru.[12]

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais am arian, Ffilm Cymru fydd yn penderfynu yn y pen draw pa swm o arian i'w gynnig i chi a pha gyfran o gyllid grant neu ecwiti fydd yn i'n cynnig. Bydd lefel y

[12] Rydym ni'n diffinio gwariant yng Nghymru fel gwariant ar dalent uwchlaw'r llinell (cast, awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr) a anwyd neu sy'n seiliedig yng Nghymru yn ogystal ag unrhyw wariant cynhyrchu hanfodol ar weithlu sydd â phrif breswylfa yng Nghymru, neu gyflenwyr/cwmnïau sydd â sail sylweddol yng Nghymru (adeiladau tymor hir, staff parhaol yn seiliedig yng Nghymru ac offer yn seiliedig yng Nghymru).

gwariant yng Nghymru yn dylanwadu i raddau helaeth ar y swm a gynigiwn, sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw gyllid Cymru Greadigol, lle mae angen o leiaf £6 o wariant yng Nghymru Cymru am bob £1 sy'n cael ei gynnig.

Os nad yw’n ddichonadwy i'ch prosiect fod â gwariant sylweddol yng Nghymru, yna mae’n dal yn bosibl y gall Ffilm Cymru fuddsoddi yn eich prosiect yn seiliedig ar y budd i awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr o Gymru yn unig. Er enghraifft, gallem fuddsoddi mewn cyd-gynhyrchiad rhyngwladol sy'n cael ei arwain gan gyfarwyddwr o Gymru ond sy’n ffilmio dramor yn bennaf. Os mai ymylol yw’r gwariant yng Nghymru, mae’n annhebygol y byddwn yn cynnig mwy na £200,000.

Byddai cynnig yr uchafswm o £600,000 yn galw am fuddion cryf o ran talent o Gymru ynghyd ag o leiaf £2.4 miliwn o wariant yng Nghymru.

## Gofynion y Gyllideb

Rhaid i chi nodi'r gwariant yng Nghymru a ragwelir yn eich cyllideb. Rhaid i'ch cyllideb gynhyrchu hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer y costau canlynol:

- Costau criw yn unol â chytundeb Pact/BECTU[13]
- Tâl i’r cast o leiaf yn unol ag isafswm Ecwiti
- Darpariaeth ar gyfer pedwar i chwech hyfforddai, a ddylai gael eu talu o leiaf yn unol â’r cyflog byw cenedlaethol
- Clirio pob hawl yn y prosiect ledled y byd ym mhob cyfrwng am byth (ac eithrio'r symiau hynny sy'n ddyledus mewn perthynas â hawliau perfformio cerddoriaeth yn gyhoeddus)
- Ad-dalu unrhyw gyllid Gorwelion neu Ddatblygu Ffilm Cymru (os yw’n berthnasol)
- Ffioedd cynhyrchydd/cynhyrchu yn gymesur â'r gyllideb arfaethedig (gweler mwy isod)

[13] https://www.pact.co.uk/about-us/what-we-do/negotiations-agreements.html

- Pob yswiriant cynhyrchu arferol (gan gynnwys gwallau a hepgoriadau)
- Yr holl ddeunyddiau cyflenwi (gweler Amodau Safonol Cyllid Cynhyrchu isod ) sydd eu hangen ar Ffilm Cymru gan gynnwys deunyddiau mynediad sy'n ymwneud ag arddangos i bobl sy'n F/fyddar, trwm eu clyw, Anabl, niwroamrywiol, â cholled golwg a/neu sydd â nam ar y synhwyrau.
- Deunyddiau cyflenwi digonol i'w darparu i asiant gwerthu rhyngwladol a'r holl bartneriaid ariannu eraill
- Deunydd cyhoeddusrwydd, lluniau llonydd a chlipiau digonol
- Ardoll sgiliau o o leiaf 0.5% o wariant craidd y DU, a fydd yn daladwy naill ai'n uniongyrchol i Ffilm Cymru neu Sgiliau Sgrin, yn amodol ar gytundeb (gweler yr adran Sgiliau isod )
- Darpariaeth gwrthbwyso carbon gorfodol o o leiaf 0.1% o gyfanswm y gyllideb i fodloni ardystiad Albert (gweler nwy isod)
- Neilltuo digon ar gyfer costau cyfrifyddu ac archwilio gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r archwiliad terfynol, gan gynnwys manylion y gwariant yng Nghymru, ac ar gyfer credyd treth y DU
- Costau cyfreithiol digonol ar gyfer y cynhyrchiad a'r arianwyr (mae canllawiau ar gostau cyfreithiol Ffilm Cymru i'w gweld fan yma )
- Yr holl gostau ariannu
- Darpariaeth ar gyfer bond cwblhau oni bai bod cyllideb y ffilm yn golygu nad yw hyn yn ddichonadwy
- Costau mynediad dangosol
- Cronfa wrth gefn o 10% o gostu craidd islaw'r llinell
- Costau iechyd a diogelwch Covid, fel sy'n berthnasol, ynghyd â uwch-gronfa wrth gefn ar gyfer Covid sy'n cyfateb i 2.5% o'r costau cynhyrchu craidd.

## Costau Mynediad

Rydym yn eich annog i gyllidebu ar gyfer costau mynediad sy'n galluogi'r cynhyrchiad i gefnogi unigolion b/Byddar, anabl a niwroamrywiol i gymryd rhan yn eich cynhyrchiad, ac sy'n helpu i wneud eich cynhyrchiad yn fwy cynhwysol. Er enghraifft, gallech ystyried cymorth ar gyfer gofal plant, costau darparu toiledau hygyrch a dehonglwyr, neu gostau a fyddai fel arall yn cefnogi gweledigaeth Ffilm Cymru ar gyfer sector sgrin cynaliadwy, sy'n cwmpasu cynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, ac arloesedd busnes.  Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais am gyllid gennym ni, byddwn yn eich helpu i ddatblygu cynlluniau cynaliadwyedd sy'n gweithio gyda chryfderau a chyfyngiadau unigryw eich ffilm.

## Ffioedd Cynhyrchydd/Cynhyrchu

Mae'r ffioedd yn amrywio'n sylweddol yn ôl prosiect a phrofiad y tîm sy'n ymgeisio felly ni allwn nodi ffioedd fan yma. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i ffioedd y cynhyrchwyr a/neu ffioedd cynhyrchu / gorbenion fod yn gymesur â'r gyllideb arfaethedig ac i ffioedd y cynhyrchwyr fod yn gyfartal â ffioedd y Cyfarwyddwr a'r Awdur. Os byddwn yn penderfynu cefnogi'r prosiect, byddwn yn trafod y ffioedd gyda'r tîm ac, er bod eithriadau, ar gyfartaledd byddai ffioedd cynhyrchydd/cynhyrchu cyfunol fel arfer tua 7-8% ond wedi'i gapio ar 10% o gostau cynhyrchu uniongyrchol (hynny yw, y gyllideb gynhyrchu tynnu ffioedd y cynhyrchwyr A ffioedd cynhyrchu / gorbenion).

## Canllawiau ar y Cynllun Ariannu

Nid ydym yn disgwyl i ymgeiswyr fod â'u holl gyllid yn ei le cyn gwneud cais i ni, ond am ein bod yn ymdrin ag arian cyhoeddus, mae angen i ni weld cynllun ariannu drafft hyfyw. Fel arfer, byddem yn

disgwyl gweld o leiaf rywfaint o gyllid partneriaeth wedi'i gadarnhau. Mae'n bwysig eich bod yn nodi statws pob ariannwr arfaethedig yn gywir, yn ogystal â'r llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer cael penderfyniad.

Nid ydym yn annog gohirio unrhyw ffioedd.

Os yw eich cynllun ariannu'n cynnwys credyd treth ffilmiau'r DU, yna dylech ddarparu cyfrifiad cychwynnol o hyn yn eich cais, ynghyd ag unrhyw gymhellion neu gymorthdaliadau eraill sydd ar gael i'r cynhyrchiad. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi bod y cynhyrchwyr yn cadw budd y credyd treth er mwyn cefnogi cynaliadwyedd a thwf eu cwmni yn y dyfodol, yn amodol ar gymeradwyaeth pob cyd-ariannw[14].

[14] https://www.bfi.org.uk/apply-british-certification-tax-relief

## Sut ydw i'n gweithio gyda Ffilm Cymru os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i mi?

Pan fyddwn yn dechrau gweithio gyda chi, byddwn yn datblygu 'ffurflen bartneriaeth' gyda chi, i sicrhau ein bod yn deall sut y gallwn eich cynorthwyo i wneud eich gwaith gorau. Gallai hyn olygu ein bod yn deall na ddylem eich ffonio o adeg casglu'r plant o'r ysgol, er enghraifft, neu, os yn bosibl, i gysylltu â chi drwy e-bost yn hytrach na ffonio os ydych yn drwm eich clyw neu'n f/Fyddar. Ni fydd yn orfodol i chi rannu'r wybodaeth yma.

Mae Ffilm Cymru yma i'ch cynorthwyo drwy'r broses o gynhyrchu ffilm annibynnol, sy'n aml yn broses anodd. Rydym wedi gweithio ar lawer o ffilmiau annibynnol a gallwn eich helpu i osgoi peryglon cyffredin, gan eich cyflwyno i bobl a darparu arweiniad a fydd yn eich helpu i wireddu eich gweledigaeth.

Fodd bynnag, mae hefyd gennym gyfrifoldeb i reoli arian y loteri a'r llywodraeth yn effeithiol a gweithio tuag at dwf hirdymor y sector sgrin ac nid prosiectau unigol yn unig. Fel y rhan fwyaf o arianwyr, bydd gennym rôl i gymeradwyo elfennau allweddol o'r ffilm a byddwn yn rhoi adborth golygyddol a strategol. Byddwn hefyd yn gofyn i chi ystyried sut gallwch gefnogi arferion cynaliadwy a chynhwysol yn y sector, gan gynnig cyngor a chymorth ar feysydd fel hyfforddeion, cynaliadwyedd amgylcheddol, ac amrywiaeth a chynhwysiant (gweler Ffilm Cymru a Chynaliadwyedd ).

Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod yn cyflawni eich rhwymedigaethau contractiol, gan ganiatáu digon o amser i Ffilm Cymru adolygu, rhoi adborth, a chymeradwyo.

## Y broses o ddyfarnu arian

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, bydd Ffilm Cymru i ddechrau yn cyhoeddi Llythyr Mynegi Bwriad fel cynnig dangosol o gyllid. Dylai hyn eich helpu i symud ymlaen tuag at gwblhau eich cyllideb, a phryd hynny byddwn yn darparu Cytundeb Ariannu Cynhyrchiad ac yn ymgymryd ag unrhyw gytundebau perthnasol gyda'ch cyd-arianwyr.

Bydd swm y cyllid y bydd Ffilm Cymru yn ei gynnig drwy Lythyr Mynegi Bwriad yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr o’r canlynol:

- Eich cyllideb a'ch cynllun ariannu
- Faint o’n cyllid sy’n weddill
- Amcangyfrif o’ch gwariant yng Nghymru

## Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid?

Mae gan Ffilm Cymru Delerau Safonol Cyllid Cynhyrchu ond gallai nodi amodau cyllido arbennig ychwanegol ar gyfer eich prosiect. Gallai’r amodau hyn gael eu nodi yn eich Llythyr Mynegi Bwriad ond bydd amodau llawn ein cyllid yn cael eu nodi yn ein Cytundeb Cyllid Cynhyrchu.

Cyn y bydd eich Cytundeb Cyllid Cynhyrchu yn derfynol, bydd angen i ni gytuno ar y canlynol fel arfer:

- Cyllideb y cynhyrchiad
- Sgriptiau ffilmio
- Y prif elfennau (fel cast a chriw allweddol)
- Llinellau amser ac amserlenni cynhyrchu
- Cynllun ariannu arfaethedig sy’n cyd-fynd â chyllideb y cynhyrchiad

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Cymru Greadigol Creative Wales

- Amserlen adennill costau
- Asiant gwerthu (os yw'n berthnasol), amcanbrisiau a thelerau masnachol
- Dosbarthwr y DU (os yw'n berthnasol) a thelerau masnachol
- Cymeradwyaeth arianwyr, fel y cytunwyd rhwng holl arianwyr perthnasol eich ffilm, fel arfer fel rhan o Gytundeb Rhwng Partïon neu Gytundeb Ariannu Cydfuddiannol ar wahân. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bethau fel y toriad terfynol a mecanweithiau cymeradwyo ar gyfer gwerthiant sy'n cael eu cynnig islaw'r amcan-bris lleiaf.

Mae Telerau Safonol Cyllid Cynhyrchu Ffilm Cymru yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Bydd cynnig cyllid Ffilm Cymru fel arfer ar gael am chwe mis (fel y nodir yn eich Llythyr Mynegi Bwriad), a bryd hynny bydd y Bwrdd yn ei adolygu gan ystyried estyniad os nad yw'r prosiect wedi cau ei gyllideb.
- Bydd Ffilm Cymru yn talu'r cyllid i gwmni sydd wedi ei gofrestru yn y DU ac i gyfrif cynhyrchu penodol.
- Bydd rhywfaint neu'r cyfan o gyllid Ffilm Cymru yn adenilladwy. Fel arfer, bydd ein dyfarniad ariannol yn cynnwys cymysgedd o ecwiti adenilladwy (arian loteri) a chyllid grant (Cyllid Cyfalaf Cymru Greadigol), a bydd y cydbwysedd rhyngddynt yn cael ei lywio gan amcangyfrif o'r gwariant yng Nghymru.
- Ni fydd Ffilm Cymru yn dechrau llif arian nes ei fod yn fodlon eich bod wedi cydymffurfio ag amodau penodol fel y nodir yng Nghytundeb Ariannu'r Cynhyrchiad. Yn ôl ein disgresiwn, ac yn ddibynnol ar amodau penodol, efallai y byddwn yn darparu blaenswm ar ffurf 'llif arian cyn cau' hyd at uchafswm o 10% o'n cyllid, ond ni fydd hawl awtomatig i hyn.
- Bydd Ffilm Cymru yn dal 5% o'i gyllid yn ôl (wedi'i gapio ar £50,000) nes bod deunyddiau cyflenwi penodol wedi'u

darparu i Ffilm Cymru, gan gynnwys deunyddiau mynediad mewn perthynas ag anableddau (a llythyr gan ddosbarthwr y DU neu asiant gwerthu sy'n cadarnhau eu bod wedi derbyn hyn), Adroddiad Cynhyrchu terfynol (yn darparu data amrywiaeth anhysbys a gwybodaeth am hyfforddeion), cadarnhad o ardystiad Albert, ac adroddiad archwilio terfynol o'r costau sy'n nodi'r gwariant yng Nghymru yn glir, wedi'i ardystio gan archwilydd annibynnol.

- Bydd ar Ffilm Cymru angen cyfran gymesur o elw net fel ariannwr a bydd yn cymryd cyfran o'r hawliau (gan gynnwys hawlfraint) os bydd ariannwr arall yn gwneud hynny.
- Yn gyffredinol, bydd Ffilm Cymru yn cymryd buddiant sicrhad dros y cwmni sy'n cynhyrchu'r prosiect ac efallai y bydd yn cymryd buddiant sicrhad dros unrhyw gyd-gynhyrchydd.
- Bydd ar Ffilm Cymry angen rôl i gymeradwyo agweddau penodol ar eich cynhyrchiad, gan gynnwys mewn perthynas â thelerau'r holl gyllid arall, pwy yw'r asiant gwerthu a'r holl ddosbarthwyr a'u telerau penodi, a'r holl ddogfennau cynhyrchu ac ariannol allweddol sy'n cael eu paratoi mewn perthynas â'r cynhyrchiad.
- Bydd Ffilm Cymru yn cymryd hawl anghyfyngol i greu deunyddiau addysgol yn gysylltiedig â'ch prosiect ar sail anfasnachol.
- Bydd angen i chi sefydlu teitl clir i'ch prosiect h.y. dangos eich bod wedi neu'n gallu caffael yr holl hawliau sydd eu hangen i gynhyrchu a manteisio ar y cynhyrchiad.
- Bydd gofyn i chi glirio hawliau byd-eang ym mhob cyfrwng am byth gan bob unigolyn neu sefydliad sy'n cyfrannu at, neu y mae eu deunydd i'w gynnwys yn y cynhyrchiad (ar wahân yn unig i hawliau perfformi cerddoriaeth yn gyhoeddus).
- Bydd gofyn i chi ad-dalu unrhyw gyllid datblygu a ddarparwyd gan Ffilm Cymru, ynghyd â phremiwm o 50% heb fod yn hwyrach na diwrnod cyntaf prif ffotograffiaeth y prosiect os yw'r prosiect yn un gweithredu byw neu'n

animeiddiedig ac wrth gau'r gyllideb gynhyrchu os mai ffilm ddogfen yw'r prosiect.

- Bydd gofyn i chi sicrhau bod eich prosiect yn cael ei gynhyrchu yn unol â gofynion yr holl undebau ac urddau sydd ag awdurdodaeth a gyda phob deddf a statud perthnasol.
- Bydd gofyn i chi gyllidebu ar gyfer uwch-gronfa wrth gefn sy'n cyfateb i 2.5% o’r costau cynhyrchu craidd i gyfrif am effeithiau COVID-19, yn ogystal â'ch cronfa wrth gefn arferol ar gyfer cynhyrchu o 10% o gostau islaw'r llinell.
- Bydd gofyn i chi ystyried sut y gallwch gefnogi cynaliadwyedd y sector sgrin, gan ddarparu 4-6 o hyfforddeion neu gyfleoedd cysgodi, talu ardoll sgiliau o o leiaf 0.5% o'ch gwariant craidd yn y DU, monitro amrywiaeth a chynhwysiant eich cast a’ch criw a gwrthbwyso carbon er mwyn bodloni ardystiad Albert.
- Bydd gofyn i chi ddarparu deunyddiau cyflenwi penodol i Ffilm Cymru, gan gynnwys deunyddiau mynediad mewn perthynas ag anableddau, a rhaid i gostau’r rhain fod wedi’u cynnwys yng nghyllideb y cynhyrchiad.
- Bydd gofyn i chi sicrhau bod unrhyw gytundeb ar gyfer dosbarthu eich prosiect yn y DU yn darparu ar gyfer deunyddiau isdeitlo meddal a sainddisgrifio mewn sinemâu ac ar unrhyw fideo-ar-alw, DVD neu ddisg Bluray o'r cynhyrchiad.
- Bydd disgwyl i chi roi pob yswiriant cynhyrchu arferol yn ei le (gan gynnwys yswiriant gwallau a hepgoriadau) ac mae'n rhaid enwi Ffilm Cymru ac o bosibl Cymru Greadigol (fel a gynghorir) arnynt fel rhai ychwanegol sydd wedi’u hyswirio.
- Fel arfer bydd disgwyl i chi fod â gwarant cwblhau yn ei le ar gyfer eich cynhyrchiad.
- Rhaid i holl refeniw’r cynhyrchiad gael ei gasglu gan asiant casglu annibynnol, a bydd yn ofynnol i'r asiant gwerthu gyfarwyddo holl ddosbarthwyr y cynhyrchiad i dalu’r holl

warantau a’r gorsymiau gofynnol mewn perthynas â'r cynhyrchiad i'r cyfrif casglu.

- Mae Ffilm Cymru yn cefnogi bod y cwmni cynhyrchu yn y DU yn adennill swm sydd yr un faint â blaenswm Credyd Treth y DU sydd wedi'i gynnwys yng nghynllun ariannu terfynol y cynhyrchiad (yn amodol ar uchafswm o union swm enillion Credyd Treth y DU, os yw'n is). Gelwir hyn yr Hawl i Gael Credyd Treth y DU, a dim ond os yw arianwyr eraill y cynhyrchiad sy'n adennill arian yn cytuno y bydd hyn ar gael i’r cwmni cynhyrchu yn y DU. Os bydd ar gael, bydd yr Hawl i Gael Credyd Treth y DU yn daladwy, naill ai ochr yn ochr â phan fydd Ffilm Cymru’n adennill ei gyllid cynhyrchu, neu ôl hynny (os bydd yn ofynnol gan arianwyr eraill y cynhyrchiad sy’n adennill arian).
- Bydd gofyn i chi gyfleu buddsoddiad Ffilm Cymru drwy gynnwys logo wedi’i animeiddio a chydnabyddiaeth cyflwyno ar ddechrau’r cynhyrchiad a chydnabyddiaeth a logos penodol ar ddiwedd y cynhyrchiad. Yn dibynnu ar gyfansoddiad eich cyllid, gallai hyn fod yn berthnasol i gydnabyddiaeth a logos ar gyfer Ffilm Cymru, y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn ôl disgresiwn y cynhyrchydd, gellir rhoi cydnabyddiaeth fel Cynhyrchydd Gweithredol i Swyddog Gweithredol perthnasol Ffilm Cymru.
- Bydd gan Ffilm Cymru hawliau ymgynghori dros gyfuniad a phob toriad yn y cynhyrchiad a rôl gymeradwyo ar y cyd dros y toriad terfynol (ar y cyd ag arianwyr eraill, fel sy'n arferol).
- Bydd Ffilm Cymru yn disgwyl cael gwybodaeth am hynt y cynhyrchiad e.e. adroddiadau cynhyrchu rheolaidd a diweddariadau dyddiol, ac yn gallu mynychu unrhyw gamau cynhyrchu.
- Bydd ar Ffilm Cymru angen ad-daliad rhannol ar ffioedd cyfreithiol a chyfrifyddu. Dyma ganllaw ar hyn:
    - Cyllidebau o hyd at £500,000 - £5,500
    - Cyllidebau o hyd at £1,000,000 - £8,800

- Cyllidebau rhwng £1,000,000 a £1,500,000 = £13,750
- Cyllidebau hyd at £2,000,000 - £16,500
- Cyllidebau o dros £2,000,000 – fel a gynghorir

- Gall Ffilm Cymru dynnu unrhyw gynnig o gyllid yn ôl os oes ganddo bryderon rhesymol yn ymwneud â thelerau unrhyw gyllid trydydd parti.
- Bydd cytundeb ariannu'r cynhyrchiad yn cynnwys darpariaethau terfynu safonol.

## Nodau strategol Ffilm Cymru

Isod, rydym yn sôn mwy am ein blaenoriaethau strategol fel cwmni, a fydd yn eich helpu i ddeall rhai o amodau ein cyllid.

## Ffilm Cymru a Chynaliadwyedd

Rydym yn dyheu am sector ffilmiau:

- Everyone Lle gall pawb yng Nghymru gymryd rhan, dysgu am, a gweithio yn niwylliant ffilm yn y ffordd y maen nhw eisiau, yn lleol, a heb gael eu cyfyngu gan nodweddion gwarchodedig, iaith na'u statws economaidd-gymdeithasol.
- Lle mae Cymru yn fyd-enwog fel lle llawn storïwyr ffilm grymus ac annisgwyl.
- Lle mae cwmnïau ffilm ac unigolion entrepreneuraidd iawn yn herio model busnes traddodiadol byd ffilm, gan ddatblygu strategaethau incwm sy'n cefnogi cynaliadwyedd mwy hirdymor y cwmni a'r gweithwyr.
- Lle mae gan griwiau medrus a ystwyth yrfaoedd gwerth chweil sy'n hybu eu lles, ac yn gweithio ar draws ffilm, teledu a ffurfiau celf eraill.
- Lle mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn ysbrydoliaeth greadigol ynghyd â dulliau gweithio cyfrifol sy'n dda i'r blaned a'n lles cyfunol yn y dyfodol.

Mae'n ofynnol gennym bod pob cynhyrchiad a ariannwn yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, ac arloesedd busnes ehangach. Rhaid i bob cynhyrchiad, er enghraifft, gynnal hyfforddeion, gwrthbwyso carbon, darparu deunyddiau mynediad mewn perthynas ag anabledd, a monitro amrywiaeth eu cast a'u criw.

Yn ogystal â hyn, rydym am gefnogi cynhyrchwyr i fynd yr ail filltir er mwyn cefnogi cynaliadwyedd y sector sgrin yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu Cynllun Cynaliadwyedd sy'n unigryw

i'ch cynhyrchiad.  Efallai y cynigwn hyd at £25,000 o arian grant na fydd yn ad-daladwy er mwyn cefnogi cynlluniau a allai gael effaith sylweddol ar y sector ffilm yng Nghymru.

Drwy wahoddiad yn unig y byddwn yn derbyn ceisiadau am gyllid Cynllun Cynaliadwyedd a dim ond at gostau'r Cynllun Cynaliadwyedd, a gytunir gan eich cynhyrchydd gweithredol yn Ffilm Cymru, y gall y cyllid gael ei ddefnyddio.

Noder mai cyfanswm y pot o gyllid y gellir ei ddyrannu ar gyfer Cynlluniau Cynaliadwyedd yw £100,000 a dim ond cynhyrchwyr sy'n derbyn ein cyllid datblygu neu gynhyrchu fydd yn cael eu gwahodd i wneud cais.

Bydd ceisiadau Cynllun Cynaliadwyedd yn cael eu hasesu gan dri aelod o'r cwmni ar y meini prawf isod ac yn gwneud hynny o fewn chwe wythnos.

## Meini Prawf y Cynllun Cynaliadwyedd

- Effaith bosibl y cynllun arfaethedig wrth ddatblygu gwerth ariannol, cymdeithasol a/neu ddiwylliannol y ffilm nodwedd sylfaenol, yn ogystal â chwmni'r ymgeisydd
- Hyfywedd y cynllun arfaethedig o ran y cyllideb a'r llinell amser a nodwyd
- Y budd posibl i Gymru o ran cynulleidfaoedd, arloesedd, a chyd-ddysgu
- A yw'n addas i dderbyn cymorth y Loteri Genedlaethol – ni all ein cyllid fod yn disodli cyllid masnachol nac yn ôl-weithredol
- Pa mor dda y mae'r ymgeisydd wedi rheoli cyllid Ffilm Cymru o'r blaen.

Isod fe welwch drosolwg o'r pedwar maes y gall eich Cynllun Cynaliadwyedd fynd i'r afael â nhw. Rydym yn disgwyl i'r cynhyrchwyr ystyried sut mae pob maes yn croestorri. Er enghraifft,

efallai y byddwch yn penderfynu eich bod eisiau canolbwyntio ar raglen hyfforddi uchelgeisiol, gan fynd uwchlaw'r niferoedd gofynnol o hyfforddeion, ond byddai'n allweddol plethu ystyriaethau amgylcheddol ac amrywiaeth a chynhwysiant i'r cynllun hwnnw (er enghraifft drwy ystyried recriwtio'n lleol a sicrhau bod hysbysebion swyddi wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir).

## Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Er bod argyfwng newid hinsawdd yn argyfwng i bob sector, mae'r diwydiant cynhyrchu ffilmiau'n cynhyrchu lefel uchel o allyriadau o ystyried ei faint, a gellir dadlau ei fod mewn sefyllfa dda i greu effaith. Gall gwaith cynhyrchu fod yn hynod wastraffus a defnyddio llawer o adnoddau a bydd angen sicrhau newid systematig er mwyn cyrraedd allyriadau carbon sero net a bod yn amgylcheddol gynaliadwy.

Gan adeiladu ar ein cynlluniau Cymru Werdd, mae Ffilm Cymru wedi meithrin partneriaethau gyda Clwstwr Creadigol, Media Cymru a Bafta Albert i ymgymryd ag ymchwil a chynnig cyllid ymchwil a datblygu i wella cynaliadwyedd y diwydiant sgrîn.

Dyma pam ei bod yn ofynnol i bob prosiect sy'n derbyn cyllid gennym gyllidebu ar gyfer gwrthbwyso carbon a derbyn ardystiad Albert, a rhaid dechrau ar hyn yn y cyfnod cyn-gynhyrchu. Trwy system sgorio ar-lein a hyfforddiant mewn cynhyrchu cynaliadwy, mae'r ardystiad yn helpu cynyrchiadau i ymgorffori egwyddorion cynaliadwy o gam cynnar. Mae'r manylion llawn i'w gweld ar dudalen Albert Production Handbook ar wefan Albert. Rhaid i gynyrchiadau hefyd wrthbwyso eu hallyriadau carbon fel rhan o ardystiad Albert. Gall prosiectau ddefnyddio amcangyfrifydd Albert Creative Offsets i ragweld faint y gallai gostio i wrthbwyso carbon.[15]

[15] https://wearealbert.org/creative-offsets/

Y tu hwnt i hyn, rydym am glywed am unrhyw syniadau arloesol sydd gennych i leihau eich effaith amgylcheddol tra eich bod yn gweithio ar eich Cynlluniau Cynaliadwyedd. Er enghraifft, efallai y byddwch am logi ymgynghorydd gwyrdd i weithio ar eich prosiect gyda chi neu ddod o hyd i ail ddefnydd ar gyfer deunyddiau'r adran gelf..

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Dylai'r byd ffilm fod i bawb. Mae ganddo'r potensial i gyfleu ein brwydrau a'n llawenydd unigryw, gan wella ein hymdeimlad o berthyn. Gall ein helpu i ddeall ein hunain a'n gilydd yn well; a gall ein cludo, hyd yn oed am ddim ond am naw deg munud, i fyd o bosibiliadau di-ben-draw.

Fodd bynnag, mae yna lawer o bobl o hyd sy'n cael eu hatal neu eu rhwystro rhag cael mynediad, rhag cymryd rhan a rhag elwa o'r sector ffilm yn y ffordd y mae eraill yn gwneud. Fel sy'n cael ei ddisgrifio yn ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb , credwn fod newid yn galw am ffyrdd newydd o weithio. Credwn mai ail-ddychmygu ffyrdd mwy cynhwysol o weithio, dysgu a dathlu ffilmiau, ymrwymo i hysbysebu rolau a chynnwys cynulleidfaoedd sydd wedi'u tangynrychioli wrth ddatblygu ffilmiau, er enghraifft, yw'r unig ffordd y byddwn yn creu'r math o newid cynaliadwy y gellir ei atgynhyrchu, a bydd hynny o fudd i ni i gyd.

Dyma pam ein bod yn arbennig o awyddus i ddatblygu cynlluniau amrywiaeth a chynhwysiant pwrpasol gyda phob un o'r cynyrchiadau a gefnogwn fel rhan o'ch Cynllun Cynaliadwyedd. Efallai y byddwch, er enghraifft, eisiau cynllunio ymgyrchoedd castio neu gyflogi cynhwysol, cynnwys hwylusydd lles ar y set, neu gynllunio grwpiau ffocws gyda'ch demograffeg darged yn ystod y camau datblygu.

## Sgiliau a Hyfforddiant

Mae cefnogaeth gan Ffilm Cymru a Llywodraeth Cymru ynghyd â mewnfuddsoddiad sylweddol a thwf platfformau Fideo-Ar-Alw, oll wedi cyfrannu at sector cynhyrchu ffyniannus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at alw cynyddol am lawer mwy o griw medrus, ar draws pob rôl a lefel. Bydd angen i bob rhan o'r diwydiant weithio a buddsoddi gyda'i gilydd i ddechrau mynd i'r afael â'r bylchau sgiliau hyn.

Er bod sawl cynllun hyfforddiant sgrin gwych ar waith yng Nghymru, mae mwy i'w wneud i gynnig rhagor o lefydd, ar draws yr ystod lawn o swyddi a lefelau profiad, ac mae angen i leoliadau a chyfleoedd gwaith fod yn fwy gweladwy a chefnogol i hyfforddeion. Mae hyn yn cynnwys addasu arferion gwaith lle mae rhwystrau ariannol a chymdeithasol a rhwystrau mynediad. Dyna pam na ellir mynd i'r afael â heriau sgiliau a hyfforddi heb roi ystyriaeth lawn i amrywiaeth a chynhwysiant.

Gofynnwn i bob prosiect rydym yn ei ariannu i dalu ardoll sy'n cyfateb i 0.5% o'r gwariant craidd, a byddwn yn cyfeirio iddo gael ei dalu naill ai i Sgiliau Sgrin neu i Ffilm Cymru i gefnogi gweithgarwch sgiliau a hyfforddiant yn y dyfodol, yn ddibynnol ar drefniadau cyd-ariannu'r ffilm.  Yng Nghymru, mae'r ardoll hwn yn gymorth i wneud y canlynol:

- Datblygu strategaeth sgiliau sy'n adlewyrchu heriau a chryfderau unigryw Cymru a ffilmiau a ffilmiau dogfen annibynnol
- Cefnogi partneriaethau cymunedol sy'n cyflwyno'r sector sgrin i gymunedau difreintiedig ledled Cymru
- Cynnal adnoddau yn FfCW i
    - gefnogi cynhyrchwyr gydag argymhellion ynghylch hyfforddeion a chyngor ar sut orau i strwythuro eu

cyfleoedd i hyfforddeion gan ystyried ffyrdd cynhwysol o weithio
- mapio'r bylchau sgiliau y mae ar gynhyrchwyr ffilmiau annibynnol angen eu llenwi
- cyd-ddylunio ffyrdd mwy cynhwysol o weithio gyda diwydiant, darparwyr hyfforddiant, a phartneriaid cymunedol.

Mae'n ofynnol i bob prosiect y buddsoddwn ynddo gynnal pedwar i chwech o hyfforddeion â thâl, yn seiliedig yng Nghymru os yw'r cynhyrchiad yn ffilmio yng Nghymru, a gallai un ohonynt fod yn gyfle i gysgodi ar gyfer un o'r gwneuthurwyr ffilmiau newydd a datblygol sydd ar un o'n llechi ar hyn o bryd. Bydd penodiadau'r hyfforddeion unigol yn cael eu cymeradwyo a'u contractio gan y cynhyrchydd, ond gallwn gynorthwyo drwy roi cyflwyniadau i sefydliadau hyfforddiant trydydd parti, gwirio pa hyfforddeion sydd ar gael a'ch helpu i strwythuro eu cyfleoedd. Ar draws y flwyddyn, rydym yn disgwyl y bydd cymysgedd o hyfforddeion o raglenni fel rhaglen Troed yn y Drws, yn ogystal â phrentisiaethau ar y cyd, cyn-fyfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach a thrwy gyfleoedd recriwtio agored ar draws darparwyr hyfforddiant.

## Entrepreneuriaeth

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru sy'n gwneud ffilmiau nodwedd a dogfen yn gwmnïau bach neu ficro, a gaiff eu harwain yn aml gan un i ddau aelod parhaol o staff sydd hefyd yn gweithredu fel cynhyrchwyr. Gall fod yn anodd camu'n ôl a pheidio â meddwl fesul prosiect. Dyna pam mae Ffilm Cymru yn awyddus i helpu cynhyrchwyr i archwilio ffyrdd gwahanol o gyrraedd, profi, ac adeiladu cynulleidfaoedd gwahanol ar gyfer eu gwaith ac ehangu cyfleoedd i fanteisio ar eu heiddo deallusol, gan gryfhau eu modelau busnes. Yn ogystal, mae gwir werth rhannu'r hyn a ddysgir gyda gwneuthurwyr ffilmiau eraill yng Nghymru fel rhan o rwydwaith cefnogol.

Rydym yn cynnal digwyddiadau 'Magnifier' blynyddol i helpu cynhyrchwyr i ganolbwyntio ar y gwerth amrywiol sydd yn eu prosiect a chwrdd â phobl sy'n gallu helpu i'w gloddio. Yn eich Cynlluniau Cynaliadwyedd rydym yn awyddus i glywed am y canlynol:

- Cynlluniau hyfyw ar gyfer datblygu a manteisio ar eiddo deallusol ategol, fel asedau addysgol, estyniadau digidol (fel realiti rhithwir, gemau neu gynnwys rhyngweithiol), cyhoeddiadau neu gyfleoedd eraill i ddatblygu eich model busnes
- Cynlluniau i arddangos er mwyn profi, yn enwedig mewn cymunedau sydd heb eu gwasanaethu’n ddigonol
- Strategaethau effaith ar gyfer hunan-ryddhau neu ddulliau hybrid lle mae galw clir am hynny

Noder na allwn ariannu gweithgaredd dosbarthu traddodiadol na thalu am gostau cyfalaf na chostau staffio craidd drwy'r cyllid hwn. Yn hytrach, gallech ystyried y cyllid hwn fel ffordd i dreialu syniadau sy'n benodol i’r prosiect a allai esblygu eich model busnes.

# Ffilm Cymru Wales Telerau Busnes Safonol

Mae'r Telerau Busnes Safonol ("Telerau Safonol") hyn yn rhan o unrhyw gytundeb ariannu ("Cytundeb Ariannu") a roddir gan Ffilm Cymru Wales CBC (FfCW) mewn perthynas â'ch prosiect ("Prosiect") a dylid eu darllen ar y cyd â'r cytundeb hwnnw. Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y ddau, y Cytundeb Ariannu fydd yn drech.

1. Gall y gyfraith a rheoliadau Llywodraeth ynglŷn â dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru newid. Mae FfCW felly yn cadw'r hawl i adolygu cynlluniau ariannu a/neu newid ei bolisïau, gweithdrefnau a meini prawf asesu.
2. Ni fydd FfCW yn atebol am unrhyw golled, difrod na chostau a gwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o:
    a. Y broses ymgeisio;
    b. Penderfyniad FfCW i beidio â darparu dyfarniad i ymgeisydd; neu
    c. Ymdrin â chais.
3. Mae penderfyniadau FfCW ar geisiadau yn derfynol. Ni chaiff apeliadau ffurfiol yn erbyn penderfyniadau eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd achos da i gredu na lynwyd wrth y gweithdrefnau ar gyfer prosesu'r cais neu eu bod wedi'u cymhwyso yn y fath fodd fel y niweidiwyd canlyniad y cais. Mae Polisi Cwynion FfCW i'w weld ar ein gwefan.
4. Ni fydd rhwymedigaeth ar FfCW i dalu unrhyw arian hyd nes y bydd wedi derbyn copi wedi'i weithredu'n llawn o'r Cytundeb Ariannu a hyd nes y bodlonwyd unrhyw rag-amodau fel a ddiffiniwyd yn y Cytundeb Ariannu.
5. Mae'n ofynnol i FfCW gyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau y mae'n ei dderbyn a'r dyfarniadau a wneir: bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys enw'r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw'r prosiect a manylion y prosiect.
6. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i aelodau'r cyhoedd wneud cais am wybodaeth benodol y mae FfCW yn ei dal ar ran ein cyllidwyr. Felly, os dewiswch wneud

cais i FfCW, gallai'r wybodaeth a ddarperwch gael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn gyfan neu'n rhannol, oni bai bod sail ddigonol o dan y ddeddf i'w dal yn ôl, fel yn achos gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol, er enghraifft.

7. Mae FfCW wedi ymrwymo i wella amrywiaeth a chynwysoldeb y diwydiant sgrin. Gofynnwn i bob tîm sy'n ymgeisio lenwi ffurflenni monitro amrywiaeth ac i bob ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu cynlluniau amrywiaeth a chynhwysiant, y maent yn adrodd yn eu herbyn. Gallai FfCW gyhoeddi unrhyw ddata amrywiaeth dienw rydych yn ei ddarparu ar sail data blynyddol wedi'i gyfanredu â data ceisiadau a data dyfarniadau eraill; ceir manylion pellach am hyn yn ein Polisi Preifatrwydd:: http://ffilmcymruwales.com/index.php/cy/amdanom-ni/ein-polisiau. Mae'n ofynnol gan FfCW bod unrhyw gamau a gymerir gan ymgeiswyr i wella amrywiaeth a chynwysoldeb eu gwaith yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 (www.equalityhumanrights.com).
8. Mae FfCW yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a ddaw oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru a'r British Film Institute ac arian cyfalaf o Gymru Greadigol Llywodraeth Cymru. Yn dibynnu ar y cyllid a dderbynnir, bydd gofyn i'r sawl sy'n ei dderbyn roi cydnabyddiaeth i FfCW, Cyngor Celfyddydau Cymru a/neu'r BFI (gan roi cydnabyddiaeth gyfatebol i'r Loteri Genedlaethol) a/neu Lywodraeth Cymru, ym mhob deunydd llafar ac ysgrifenedig/cyhoeddedig yn ymwneud â'r Prosiect gan gynnwys defnyddio logos, fel a gyflenwir.
9. Gall FfCW ddal dyfarniad yn ôl neu adennill dyfarniad yn yr amgylchiadau canlynol:
    a. mae'r cais wedi'i lenwi'n anonest neu â gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol;
    b. os yw derbynwyr dyfarniad yn ymddwyn yn anonest neu'n esgeulus er anfantais y prosiect

AC

c. unrhyw doriad arall fel a ddiffinnir gan y Cytundeb Ariannu.